**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**04/12/01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2001-0058 Hyd Toriad y Cynulliad/ Amount of Assembly Recess

04 Dec 2001 Raised by Jocelyn Davies, Elin Jones

No Subscribers

*Hyd Toriad y Cynulliad*

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei ofid ynghylch hyd y toriad y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cred ei bod yn ormodol ac yn annerbyniol torri ar waith Llywodraeth y Cynulliad am dri mis dros yr haf a chytunir y dylai'r Cynulliad benderfynu faint o wythnosau y dylai ymgynnull yn ôl y gwaith sydd ganddo i'w wneud yn hytrach na sawl wythnos o doriad y dymuna Aelodau'r Cynulliad eu cael.*

*Amount of Assembly Recess*

*The National Assembly expresses concern at the amount of recess weeks agreed for next year. It believes that it is excessive and unacceptable for the Assembly Governments Business to be curtailed for three months over the summer period and agrees that the Assembly should decide how many weeks it sits for by the amount of work it has to do rather than how many weeks recess that Assembly Members wants.*

# OPIN-2001-0055 Gwasanaethau Consignia yng Nghymru/ Consignia Services in Wales

21 Nov 2001 Raised by Brian Hancock

7 Subscribers:

- Dafydd Wigley
- Gareth Jones
- Rhodri Glyn Thomas
- Geraint Davies
- Helen Mary Jones
- Janet Ryder
- Peter Black

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei bryder am gynlluniau Consignia, sydd eto i’w cyhoeddi, i beidio ag agor un ganolfan bost yng Nghymru ar y penwythnosau, ac i redeg y gwasanaeth dosbarthu a danfon ym Manceinion, Wolverhampton a Bryste. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Consignia i ailystyried y penderfyniad hwn, ac i gydnabod y sefyllfa wleidyddol newydd sy’n bodoli yng Nghymru yn dilyn creu’r Cynulliad Cenedlaethol.*

*The National Assembly expresses concerns at the plans to be announced by Consignia that no mail centre will operate in Wales at weekends, and that Welsh deliveries will be serviced from Manchester, Wolverhampton and Bristol. The National Assembly calls on Consignia to reconsider this decision, and recognise the new political situation which exists in Wales following the creation of the National Assembly.*

## OPIN-2001-0053 Implementation of the Diabetes NSF for Wales / Gweithredu'r NSF Diabetes ar gyfer Cymru

15 Nov 2001 Raised by Peter Black, Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther, David Melding

12 Subscribers:

- Owen John Thomas MA
- Glyn Davies
- Gareth Jones
- Jocelyn Davies
- Elin Jones
- Cynog Dafis
- Janet Ryder
- Rhodri Glyn Thomas
- Eleanor Burnham
- Geraint Davies
- Helen Mary Jones
- Jonathan Morgan LLB MSc FRSA

*Gweithredu'r NSF Diabetes ar gyfer Cymru*

*Mae'r Cynulliad hwn yn gresynu at y datagianiad diweddar y bydd oedi wrth gyhoeddi Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) Diabetes ar gyfer Lloegr, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*
*· Datgan yn glir beth fydd goblygiadau'r gohirio hwn i Gymru, a phryd y dechreuant weithredu'r NSF Diabetes ar gyfer Cymru*
*· Ymroi i lunio NSF fydd yn ateb gofynion cleifion, ac i ymghynghori'n agored â chleifion a phroffesiynolion gofal iechyd am sut i wireddu safonau'r NSF yn ymarferol*
*· Rhoi canllawiau clir i'r NHS yn lleol i ddechrau gosod sylfeini gweithredu'r Fframwaith"*

*Implementation of the Diabetes NSF for Wales*

*This Assembly regrets the recently announced delay in the publication of the Diabetes National Service Framework (NSF) for England, and calls upon the Government of Wales to:*
*· State clearly what the consequences for Wales of this delay will be, and when they will begin implementing the Diabetes NSF for Wales*
*· Commit to the production of a patient-friendly NSF, and to open consultation with patients and healthcare professionals about how to make the NSF standards work in practice*
*· Give a clear guidance to the NHS locally to begin putting in place the building blocks for implementing the Framework*